# Cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad

**Beth yw eu diben?**

O dan ofynion Adran 39 Deddf Addysg 2005, lle rhoddwyd ysgol neu uned cyfeirio disgyblion yn y categori angen gwelliant sylweddol neu mewn mesurau arbennig, mae'n ofynnol i gorff llywodraethol ysgol neu bwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA). Yn y sector nas cynhelir, er nad yw hyn yn ofyniad cyfreithiol, os caiff lleoliad ei roi mewn categori gwelliant â ffocws, mae Estyn yn gofyn bod yr unigolyn cofrestredig neu'r unigolyn sy'n gyfrifol yn llunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

O dan adran 40 Deddf Addysg 2005, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi datganiad ysgrifenedig am unrhyw gamau y maent yn bwriadu eu cymryd yng ngoleuni adroddiad Estyn yn nodi bod angen gwelliant sylweddol neu welliant â ffocwsneu fesurau arbennig ar ysgol neu UCD. Fel rhan o Reoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014, mae gofyniad i gyrff llywodraethol ailedrych ar gynllun datblygu ysgol yn dilyn arolygiad. Gallai'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA) fod o fewn cynllun datblygu'r ysgol neu uned cyfeirio disgyblion, a dylai ffurfio rhan annatod o flaenoriaethau gwella uniongyrchol yr ysgol neu uned cyfeirio disgyblion. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd CGOA ar ei ben ei hun yn bodloni gofynion llawn y rheoliadau.

**Gallai'r arweiniad hwn fod yn ddefnyddiol ar gyfer y canlynol:**

- Corff llywodraethol ysgol y nodwyd gan Estyn fod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arni
- Pwyllgor rheoli UCD y nodwyd bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arni
- Yr unigolyn cofrestredig neu'r unigolyn cyfrifol ac awdurdod lleol priodol lleoliad nas cynhelir y nodwyd bod angen gwelliant â ffocws arno
- Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am wella ysgol neu UCD y nodwyd bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arni
- Arweinwyr mewn darpariaethau addysgol eraill a hoffai ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwelliant

Mae'n ofynnol i gorff llywodraethol ysgol neu bwyllgor rheoli UCD neu leoliad lunio cynllun gweithredu o fewn 20 diwrnod gwaith i gyhoeddi'r adroddiad (ac eithrio gwyliau ysgol sy'n fwy nag wythnos) i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad. Gall Gweinidogion Cymru bennu cyfnod byrrach os byddant o'r farn bod brys yr achos yn gofyn am gyfnod byrrach. Dylai'r corff llywodraethol/pwyllgor rheoli anfon drafft o'r cynllun gweithredu i Estyn cyn y terfyn amser hwn er mwyn i ni allu cadarnhau ei fod yn offeryn effeithiol ar gyfer sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Os na, bydd Estyn yn cysylltu â'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli i amlinellu ble mae angen gwneud gwelliannau i'r cynllun.

Dylai'r awdurdod lleol weithio'n agos â'r ysgol/UCD/lleoliad wrth lunio'r cynllun gweithredu.

Yn ychwanegol, ar gyfer ysgolion ac UCDau, mae hefyd yn ofynnol i'r awdurdod lleol, o dan adran 40 Deddf Addysg 2005, baratoi datganiad ysgrifenedig am unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r adroddiad. Dylai'r datganiad gynnwys cyfeiriad at unrhyw ymyriadau ffurfiol y mae wedi eu gwneud, neu'n bwriadu eu gwneud, yn unol â Chanllawiau Statudol 222/2017 Llywodraeth Cymru, Ysgolion sy'n Achosi Pryder (Medi 2017). Y cyfnod statudol i'r awdurdod lleol lunio'i ddatganiad yw 10 niwrnod gwaith o'r dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn cael copi o gynllun gweithredu'r ysgol/UCD. Fodd bynnag, byddai'n arfer dda pe bai awdurdodau'n anelu at lunio'r datganiad o fewn 5 diwrnod gwaith er mwyn cefnogi gwelliant yn gynt, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae'n ofynnol i ysgol neu UCD anfon copi o'i chynllun gweithredu terfynol i Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd, rhaid i'r awdurdod lleol roi copi o'i ddatganiad gweithredu terfynol i Lywodraeth Cymru. Dylai'r ysgol neu'r UCD anfon y rhain at sarah.fulthorpe@wales.gsi.gov.uk ar ôl i Estyn eu cymeradwyo.

**Beth ddylai cynllun gweithredu ysgol, UCD neu leoliad ei gynnwys?**
Dylai'r Cynllun Gweithredu amlinellu'r gwaith arfaethedig a fydd yn galluogi'r ysgol i wneud digon o welliant i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gan Estyn, cyn gynted â phosibl. Disgwylir i'r rhan fwyaf o ysgolion wneud y gwelliannau gofynnol o fewn blwyddyn o'r penderfyniad bod angen gwelliant sylweddol arnynt neu o fewn 2 flynedd o benderfyniad bod angen mesurau arbennig arnynt.

| **Yr ysgolion sy'n gyfrifol am fformat y Cynllun Gweithredu. Ar y lleiaf, fodd bynnag, ar gyfer pob maes gwella (argymhelliad) a nodwyd yn yr adroddiad arolygu, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cynllun gweithredu nodi:** |
|---|
| • y camau mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd |
| • pwy sydd â chyfrifoldeb arweiniol am y cam arfaethedig |
| • pa gymorth bydd yr ysgol yn troi ato i fynd i'r afael â'r maes sydd i'w wella |
| • y graddfeydd amser ar gyfer cwblhau'r gwaith, gyda cherrig milltir allweddol |
| • yr adnoddau fydd yn cael eu neilltuo i'r gwaith |
| • meini prawf llwyddiant (gan gynnwys targedau meintiol ar gyfer gwelliannau yn neilliannau dysgwyr) y bernir cynnydd yn eu herbyn |
| • sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro e.e. pwy, pryd a sut |
| • sut bydd yn rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am y camau sydd yn yr arfaeth ar gyfer yr ysgol, yn cael barn rhieni am y camau hyn a sut bydd yn ystyried y farn honno |

Ar gyfer ysgolion y nodwyd gan Estyn bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arnynt, o dan ddarpariaethau Adran 39 (9) Deddf Addysg 2005, rhaid i bob adroddiad blynyddol i rieni sy'n cael ei baratoi gan y corff llywodraethol o dan Adran 30 Deddf Addysg 2002, gynnwys datganiad ar y cynnydd a wnaed yn rhoi'r cynllun gweithredol ôl-arolygiad (CGOA) ar waith. Gallai arweinwyr ysgol a chyrff llywodraethol weld ei bod yn fuddiol arfarnu cynnydd yr ysgol trwy nodi effaith y camau a gymerwyd gan yr ysgol, yn hytrach na disgrifio'r camau eu hunain.

**Beth ddylai datganiad gweithredu awdurdod lleol ei gynnwys?**

| |
|---|
| **Rhaid i ddatganiad gweithredu'r awdurdod lleol fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu. Dylai fod yn glir fod yr awdurdod lleol a'r ysgol/UCD wedi gweithio gyda'i gilydd i greu eu cynlluniau.**<br><br>**Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am fformat y datganiad ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai datganiad yr awdurdod lleol gynnig:** |
| • asesiad o Gynllun Gweithredu'r corff llywodraethol a gallu'r ysgol i weithredu'r cynllun |
| • manylion am y camau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodir yn yr adroddiad arolygu |
| • graddfeydd amser gyda cherrig milltir |
| • nodi pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cam gweithredu yn cael ei gyflawni |
| • meini prawf llwyddiant gan gynnwys targedau ar gyfer gwelliannau yn neilliannau dysgwyr, y bernir cynnydd yn eu herbyn |
| • manylion am sut caiff cynnydd ei fonitro e.e. pwy, pryd a sut |
| • yr adnoddau fydd yn cael eu neilltuo i'r gwaith |
| • p'un a yw'r awdurdod lleol yn bwriadu defnyddio'i bwerau ymyrryd i fynnu bod y corff llywodraethol yn sicrhau cyngor neu'n cydweithredu, yn rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethol neu'r pennaeth ac yn cymryd unrhyw gamau eraill, yn penodi llywodraethwyr ychwanegol, yn tynnu cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn ôl neu'n sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn lle'r corff llywodraethol |
| • sut bydd yn hysbysu rhieni a gofalwyr am y camau gweithredu sydd yn yr arfaeth ar gyfer yr ysgol; sut bydd yn cael barn rhieni am y camau hyn a sut bydd yn ystyried y farn honno |